

Cyngor Tref Y Bala

Crynodeb Cyfarfodydd 2020-21

| Dyddiad | Datgan Buddiant | Presennol | Penderfyniadau a Gytunwyd |
|--------------------|---|--|--|
| 2/4/20 | E Roberts 5 - cynllunio | Cyfarfod e-bost /ffon (Covid) - pawb | Druids' House – newid defnydd Talu HMRC |
| 5/5/20 | E Roberts Sue Davies: cyfraniadau | Cyfarfod e-bost /ffon (Covid) - pawb | Cytunwyd i ddefnyddio Zoom Cytunwyd i ohirio Cyfarfod Blynyddol Talu: Glanhau'r Llochesi Bws £50; Cyfrifwyr £132; Cyflog Ebrill. Cytunwyd i'r Datganiadau Ffurflen Flynyddol. Cyfraniad o £5000 at Brosiect Ieuenctid I lai Breintiedig Cyfrannu £800 i Gronfa'r Maer |
| 4/6/20 Zoom | Dim | Eifion Roberts, Sue Davies, Dilys Evans, Eluned Jones, Tony Parry, Alun Price, Carol Rowlands, Cynghorydd Dilwyn Morgan (Gwynedd), Lis Puw (Clerc). | Ysgrifennu at berchennog tŷ yn Heol Aran – cerbyd yn rhwystr Diolch i sefydliadau/unigolion sydd wedi gweithio'n galed ar ran y gymuned. Cyfranwyd £100 at ppe Talwyd Cyflog a glanhau llochesi bws Cytunwyd ar bris Zurich ar gyfer yswiriant (£315.03) |
| 2/7/20 Zoom | Dim | Y Maer Eifion Roberts, Sue Davies, Dilys Evans, Alun Price, Cynghorydd Dilwyn Morgan (Cyngor Gwynedd), Lis Puw (Clerc). | Cytunwyd i gyfrannu hyd at £1000 tuag at harddu'r dref Taliadau: Cyflog, HMRC, cynnal a chadw (£1,080). Cymeradwywyd y Ffurflen Flynyddol ar gyfer y flwyddyn Ariannol 2019-20 gan gynnwys Datganiadau Cyfrifyddu ar gyfer Cyngor Tref Y Bala a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31/3/20. Cytunwyd i ymateb i gais am farn leol oddi wrth Cyngor Gwynedd. Cytunwyd i ymateb i'r llythyr am bwyntiau gwefru ceir trydan |
| 3/9/20 StarLeaf | Dim | Y Maer Eifion Roberts, Y Dirprwy Faer Rhys Evans, Sue Davies, Dilys Evans, Tony Parry, Alun Price, Lis Puw (Clerc). | Cytunwyd i ddiolch i Mabon Rhys am ei wasanaeth i'r Cyngor ac i wneud y trefniadau i lenwi'r sedd. Cytunwyd i gynnal y Cyfarfod Blynyddol ym mis Tachwedd ar gyngor Un Llais Cymru Cytunwyd i holi'r Cynghorydd Dilwyn Morgan pa bryd bydd y trefniant byrddau yn y mannau parcio yn dod i ben. Gwrthwynebodd Cyngor Tref Y Bala cael trefniant o'r math hwn o flaen Y Goat |

| | | | |
|----------------------|--|--|--|
| | | | Derbyniwyd ail ran y Praesept a chytunwyd i drosglwyddo £10,000 i'r Cyfrif Busnes Cytunwyd i dalu'r taliadau misol; adroddwyd y talwyd £144 i StarLeaf (cynnwys TAW) er mwyn gallu cynnal cyfarfodydd yn ddiogel ar lein. |
| 1/10/20 StarLeaf | Dim | Y Maer Eifion Roberts, Y Dirprwy Faer Rhys Evans, Sue Davies, Dilys Evans, Tony Parry, Alun Price, Carol Rowlands, John Caradog Williams (ffôn), Cynghorydd Dilwyn Morgan (Cyngor Gwynedd), Lis Puw (Clerc). | Cytunodd y Cyngor i gefnogi gosod QR ar y Gofeb Cytunwyd i anfon at NMWTRA i ofyn am gyfyngiad 40mya yn Llanycil Cytunwyd i anfon at Gyngor Gwynedd i ofyn am gyfyngiad 20mya yn Heol Ffrydan Cytunwyd i roi'r hawl i'r is-bwyllgor Nadolig i wario ar oleuadau di-drydan eleni Cytunwyd i dalu am lanhau'r llochesi (£200) a chyflog y Clerc Cytunwyd i wrthod cefnogaeth i Ffordd Werdd rhwng Y Bala a Llandrillo/Corwen Cytunwyd mewn egwyddor i gefnogi cynnal triathlon y flwyddyn nesaf. |
| 5/11/20 StarLeaf | Dim | Y Maer Eifion Roberts, Y Dirprwy Faer Rhys Evans, Sue Davies, Dilys Evans, Tony Parry, Alun Price, John Caradog Williams (ffôn), Cynghorydd Dilwyn Morgan (Cyngor Gwynedd), Lis Puw (Clerc). | Cytunwyd i ofyn am gymorth Aelodau Senedd Llywodraeth Cymru ar fater diogelwch wrth Llanycil. Nadolig: gofynnwyd i'r Clerc geisio cael hyd i gynifer o oleuadau a phosib Cymeradwywyd cais NP5/53/579 60 Heol y Domen, Y Bala Cymeradwywyd cais NP5/53/LB197A Neuadd y Cyfnod, High Street, Bala. LL23 7PG Taliadau: SLCC £46.67 (1/3 o'r ffi); gwaith cynnal £960; Lês y Domen £1; Gwasanaeth Cyfrifo Cyngor Gwynedd £252; Clerc (mis Hydref). Cytunwyd i beidio a thalu anfoneb Cyngor Gwynedd am y toiledau (£8000) ar hyn o bryd. |
| 10/12/20 StarLeaf | Rhys Evans 10iv.a (materion ariannol) Alun Price 9i (cais cynllunio Cyfoeth Naturiol Cymru). | Y Maer Eifion Roberts, Y Dirprwy Faer Rhys Evans, Sue Davies, Dilys Evans, Sharon Evans, Tony Parry, Alun Price, Cynghorydd Dilwyn Morgan (Cyngor Gwynedd), Lis Puw (Clerc). | Enwebwyd Elin Haf i'r sedd wag. Cytunwyd i anfon eto at Aelodau Senedd Cymru ac at Ken Skates, gan gynnwys data Heddlu Gogledd Cymru am dda, weiniau yng ngyffiniau Llanycil. Cytunwyd i holi am ystadegau Gan Bwyll ar Heol Ffrydan (A4212) am 2019, gan ofyn beth oedd canran y troseddwr efo cod post LL23 neu bobl sy'n teithio trwy'r Bala sydd mwyaf euog o oryrru. Triathlon Y Bala Medi 4 a 5, 2021 – cymeradwywyd y cais i'w gynnal Cytunwyd i ddiolch i holl staff Ysgol Godre'r Berwyn am eu hymdrechion dros y plant. Cytunwyd i gyfarfod ar lein gyda Steffan Jones i drafod toiledau/ardoll. Is-bwyllgor Nadolig: rhoddwyd yr hawl iddynt brynu coed a goleuadau Cymeradwywyd NP5/53/580 Prosiect Diogelwch Cronfa Ddŵr Llyn Tegid Cymeradwywyd NP5/53/363D Adeiladu garej, Bryn Myfanwy, Stryd y Fron, Y Bala Talwyd: Goleuadau Nadolig £230.90; Awen Meirion £132.30; Gwefan £150; ico £35; Cyflog; Cyfraniad at gynnal Swyddfa £300 |

| | | | |
|--------------------|-----|---|--|
| | | | Cytunwyd i ofyn am gyfraniadau gan fudiadau yn y dref i brynu di-ffib i'r ciosg |
| 7/1/21 StarLeaf | Dim | Y Maer Eifion Roberts, Y Dirprwy Faer Rhys Evans, Dilys Evans, Tony Parry, Alun Price, Elin Hedd, Cyngorydd Dilwyn Morgan (Cyngor Gwynedd), Lis Puw (Clerc). | Cytunwyd i gynnig cyfle pellach i ymgeisio am nawdd ar ddiwedd y cyfnod clo Cytunwyd i brynu cyfrifiadur at ddefnydd y Cyngor yn y flwyddyn ariannol nesaf. Derbyniwyd y gyllideb ac argymhelliad yr is bwyllgor Cyllid o £27,000 ar gyfer lefel y Praesept 2021-22. Taliadau: Siop Kel £131.90; Coed S Wood £60; Archwilio Cymru £238.79; Grŵp Busnes /Awen Meirion: Canu ar y Stryd Fawr £300; Cyflog a TWE |
| 4/2/21 StarLeaf | Dim | Y Maer Eifion Roberts, Y Dirprwy Faer Rhys Evans, Sue Davies, Dilys Evans, Elin Hedd, Tony Parry, Alun Price Lis Puw (Clerc). | Cytunwyd i anfon i ddiolch i'r Syrjeri am eu gwaith yn brechu trigolion. Diolchwyd i'r Seiri Rhyddion am dalu am di-ffib a chytunwyd i holi am brisiau plac Cytunwyd i ddal nôl rhag gwneud cyfraniad tuag at y toiledau hyd nes y bydd mater yr addoll yn cael ei ddatrys. Cymeradwywyd cais NP5/53/582 i adeiladu estyniad cefn yn lle ystafell wydr presennol, 22 Mawnog Fach. Derbyniwyd ad-daliad £1,600 am wariant ar Y Domen. Talwyd y cyflog. Cytunwyd i ohirio dyrannu i fudiadau yn y cyfarfod hwn; cytunwyd i adolygu'r sefyllfa Cyfraniadau Ariannol diweddaraf ym mhob cyfarfod hyd nes daw'r cyfnod clo i ryw fath o derfyn. Cytunwyd i anfon llythyr parod Cyngor Tref Nefyn at Julie James AS Cyfarwyddwyd y Clerc i ymateb i Ymgynghoriad Parc Cenedlaethol Eryri ar dwristiaeth gynaliadwy |
| 4/3/21 Zoom | Dim | Y Maer Eifion Roberts, Dilys Evans, Elin Hedd, Alun Price, Carol Rowlands, John Caradog Williams (ffôn), Cyngorydd Dilwyn Morgan (Cyngor Gwynedd), Lis Puw (Clerc). | Cytunwyd i wneud trefniadau ar gyfer llenwi 3 sedd wag ar y Cyngor. Diolchwyd i'r brodyr Evans am gydrannu plac i'r ciosg a chytunwyd i gynnwys "Cyngor Tref Y Bala" ac efallai'r arfbais ar y plac. Cytunwyd i ymuno yn y cynllun ardoll parcioar ôl derbyn gwybodaeth am yr incwm tebygol. Gohiriwyd ystyried y taliad 2020-21 am y toiledau tan y cyfarfod nesaf. Parc Cenedlaethol Eryri: NP5/53/586 Loch Café, Heol Pensarn, Y Bala LL23 Cytunwyd i'r newid defnydd ar gyfer gwerthu diod ysgafn - ond nid i gynnwys gwerthu alcohol. Cyngor Gwynedd: Loch Cafe - cais trwydded i werthu alcohol rhwng 11.00am a 9.30pm 7 diwrnod yr wythnos. Cytunwyd i WRTHWYNEBU Taliadau: Cytunwyd i dalu Cyflog; Cyngor Gwynedd am oleuo'r Stryd Fawr (£1,098.90) |

| | | |
|--|--|--|
| | | <p>Cytunwyd i wneud cyfraniadau cymunedol: £300 i Glybiau Ffermwyr Ieuan (Ffederasiwn Meirionnydd); £300 i'r Gymdeithas Genweirio; £1000 i Gymdeithas Chwaraeon ac Adloniant Y Bala a Phenllyn.</p> <p>Cytunwyd i ofyn am rannu trwydded Zoomgyda Chyngor Cymuned Llanuwchllyn (£60 y flwyddyn i'r Bala a Llanuwchllyn i dalu £60 + TAW).</p> <p>Cytunwyd i anfon at Adra i ddweud nad oes enw yn cael ei gynnig ar y datblygiad yn ardal Cysgod y Coleg oherwydd bod y Cyngor wedi gwrthwynebu'r datblygiad yn y lle cyntaf; hefyd oherwydd nad oes lle chwarae i'r plant fel yr addawyd.</p> <p>Ceir yn parcio ar y palmant: Cytunwyd i dynnu sylw Cyngor Gwynedd trwy ein Cynghorydd Sir.</p> <p>Lleihau llefydd parcio ar y stryd: Cytunwyd i holi am drwydded pafin Cyngor Gwynedd</p> <p>Cytunwyd i ddatgan nad yw Cyngor Tref Y Bala yn fodlon fod y llefydd parcio yn cael eu cymryd gan fusnesau.</p> <p>Cytunwyd i holi'r gwardeiniaid am y biniau llawn wrth Lyn Tegid.</p> |
|--|--|--|